
# Canllawiau ar gyflwyno testunau sensitif

Cefnogi athrawon ledled Cymru

**Mai 2026**



Yn Arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

# Canllawiau ar gyflwyno testunau sensitif

## 1. Pwrpas y ddogfen ganllawiau hon

1.1 Datblygwyd y ddogfen ganllawiau hon i gefnogi ymarferwyr sy'n cyflwyno Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 CBAC yng Nghymru. Mae'n tynnu sylw at yr hyn y dylai ymarferwyr ei ystyried wrth gefnogi datblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau eu dysgwyr sy'n ymwneud â thestunau sensitif yn ein cymwysterau mewn ffordd gynhwysol a diogel.

1.2 Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at ymarferwyr sy'n cyflwyno Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 CBAC ar draws canolfannau yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion a gynhelir, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu eraill. Dylai uwch arweinwyr (er enghraifft, penaethiaid adran ac uwch dimau arwain) fod yn gyfarwydd â'r ddogfen hon hefyd yng nghyd-destun cynllunio cwricwlwm ehangach.

1.3 Dylid ei hystyried ochr yn ochr â deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau ysgol perthnasol, megis y rhai sy'n ymwneud â diogelu, amrywiaeth a chynhwysiant, cydraddoldeb, dyletswydd Atal ac unrhyw bolisïau mewnol sy'n ymwneud ag addysgu testunau sensitif.

1.4 Dylai athrawon hefyd gyfeirio at y Canllawiau Addysgu penodol i'r cymhwyster perthnasol.

## 2. Beth rydyn ni'n ei olygu o ran testunau sensitif

2.1 Gallai testun fod yn sensitif i wahanol ddysgwyr a/neu athrawon am wahanol resymau ac ar wahanol adegau. Er ei fod yn agored i ddehongliad unigol, at ddibenion y canllawiau hyn, testun sensitif yw unrhyw destun:

- a all roi profiad sensitif, heriol neu emosiynol i ddysgwr a/neu athro
- sy'n codi cwestiynau moesegol neu foesol
- sy'n cynnwys safbwyntiau dadleuol
- sy'n ymwneud â hunaniaethau, gwerthoedd, credoau neu brofiadau personol dysgwyr
- sy'n cynnwys safbwyntiau gwleidyddol partisanaidd
- sy'n ymwneud â nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

2.2 Gallai testunau sensitif felly gynnwys amrywiaeth o faterion gwleidyddol, moesegol, personol, cymdeithasol a chrefyddol.

2.3 Rydym yn cydnabod bod addysgu a dysgu sy'n gysylltiedig â'n cymwysterau yn cynnwys ymgysylltu â thestunau sensitif. Gall rhai cymwysterau fod â chynnwys penodol a allai fod yn sensitif i ddysgwyr a/neu athrawon. Mewn cymwysterau eraill, gall testunau sensitif ddod i'r amlwg yn naturiol ac yn ddigymell yn ystod addysgu a dysgu er nad ydynt yn rhan benodol o gynnwys y cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 3. Cwricwlwm i Gymru

3.1 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi mai nod cwricwlwm ysgol yn y pen draw yw cefnogi ei dysgwyr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

3.2 Fel rhan o'r dibenion hyn, disgwylir i ddysgwyr wneud y canlynol:

- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- bod yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- bod â gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol
- meithrin eu llesiant meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi
- ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.

3.3 Mae hyn yn golygu bod dysgwyr felly yn debygol o ddod ar draws testunau sensitif, gan y gall testunau o'r fath gefnogi dysgwyr i ddeall y byd y maent yn byw ynddo a gwneud cynnydd tuag at wireddu'r pedwar diben fel y nodir ym mharagraff 3.1.

3.4 Gan gefnogi'r pedwar diben hyn, disgwylir i ysgolion ac ymarferwyr ddylunio cwricwlwm sy'n ymgorffori themâu trawsbynciol. Dylai ystyriaeth o'r themâu trawsbynciol ganiatáu i ddysgwyr ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a datblygu dealltwriaeth o addysg perthnasoedd a rhywioldeb, addysg hawliau dynol, a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith.

3.5 Rydym wedi datblygu ein Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru; mae hyn wedi dylanwadu ar gynnwys testunau penodol ac wedi ein harwain i sicrhau bod cyfleoedd i ysgolion ac ymarferwyr ymgorffori agweddau fel y themâu trawsbynciol wrth gyflwyno ein cymwysterau. Mae ein dogfennau Canllawiau Addysgu sy'n benodol i gymwysterau yn tynnu sylw at y cyfleoedd hyn.

3.6 Mae hyn yn unol â disgwyliad Cymwysterau Cymru o ran y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 y dylai fod cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â'r themâu trawsbynciol a'u hystyried, ac i gymwysterau adlewyrchu ystod amrywiol o safbwyntiau, cyfraniadau a phrofiadau.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 4. Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud[1]

4.1 Mae'n ofynnol i ysgolion o dan adran 78 Deddf Addysg 2002 wneud trefniadau gyda'r bwriad o ddiogelu a hybu llesiant pob disgybl ac i ddilyn cwricwlwm sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion a chymdeithas, ac yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd diweddarach.

4.2 Ar ben hynny, mae dyletswyddau o dan adrannau 406 a 407 Deddf Addysg 1996 ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid a thrwy hynny athrawon:

- rhaid iddynt beidio â hybu safbwyntiau gwleidyddol partisanaidd,
- rhaid i ysgolion wahardd gweithgareddau gwleidyddol partisanaidd gan unrhyw un o'r disgyblion cofrestredig hynny mewn ysgol a gynhelir sy'n ddisgyblion iau
- rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn cyflwyno unrhyw safbwyntiau gwrthgyferbyniol mewn ffordd gytbwys pan fydd materion gwleidyddol yn codi.

4.3 Nid yw'r term 'safbwyntiau gwleidyddol partisanaidd' o reidrwydd wedi'i gyfyngu i safbwyntiau un blaid wleidyddol benodol ond yn hytrach mae'n cael ei ystyried yn gyfystyr â safbwyntiau "unochrog", er bod hyn yn oddrychol.

4.4 Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol i addysgu unrhyw agwedd ar gwricwlwm a ddarperir yn yr ysgol, gan gynnwys mewn perthynas â chyflwyno cymwysterau.

4.5 Nid yw'r dyletswyddau hyn yn golygu na all athrawon ymdrin â materion gwleidyddol, ond eu bod yn cael eu haddysgu'n deg ac yn gywir, ac nad ydynt yn annog nac yn hybu safbwynt gwleidyddol penodol.

4.6 Mae'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru yn ôl Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ddylunio a gweithredu cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y pedwar diben. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi sylw i ganllawiau statudol (Fframwaith Cwricwlwm i Gymru), sy'n ymhelaethu ar y dibenion hyn. Er bod y dibenion hynny yn rhan o'r fframwaith addysgol statudol, efallai na fyddant yn cael eu cynnal yn gyffredinol a gallant fod yn destun dadl wleidyddol a chymdeithasol.

4.7 Mae dyletswydd gofal ar ysgolion sy'n ymwneud ag addysg a llesiant disgyblion, ynghyd â dyletswyddau diogelu cyffredinol. Maent hefyd yn gaeth i rwymedigaethau sydd wedi'u pennu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

4.8 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn dysgwr ar sail nodwedd warchodedig, a dylai athrawon fod yn ymwybodol o hyn wrth ddelio â materion sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig o'r fath. Nid oes unrhyw nodwedd warchodedig yn cymryd blaenoriaeth dros neu yn diystyru un arall.

[1] Er bod y ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn cyfeirio'n benodol at ddisgyblion, rydym yn defnyddio'r termau "disgybl" a "dysgwr" yn gyfnewidiol ac mae ganddynt yr un ystyr at ddibenion y ddogfen ganllawiau hon

© WJEC CBAC Ltd. 2026

4.9 Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus hefyd yn berthnasol i ysgolion yng Nghymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a rhaid iddynt roi sylw dyledus (h.y. rhoi ystyriaeth i, nid bod ag ymwybyddiaeth yn unig) i'r angen i:

- gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig

4.10 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan awdurdodau cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys ysgolion, ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw pobl anabl dan anfantais sylweddol o ran cael mynediad at wasanaethau o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Gall addasiadau rhesymol gynnwys newidiadau i bolisïau, arferion, gweithdrefnau a hyfforddiant staff i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn effeithiol i bobl ag anableddau, gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu.

4.11 Bydd yr uchod yn dylanwadu ar sut mae ymarferwyr yn cyflwyno testunau penodol.

## 5. Paratoi a chynllunio

5.1 Weithiau mae angen ymgysylltu â thestunau sensitif (gweler paragraff 2.3). Gall paratoi a chynllunio'n ofalus sicrhau bod testunau o'r fath yn cael eu trin mewn ffordd sy'n lleihau unrhyw drallod posibl.

5.2 Dechreuwch drwy adolygu'r manylebau a deunyddiau cymhwyster eraill i nodi testunau (*topics*), themâu neu ddarnau o destun a allai fodloni'r disgrifiad o destunau sensitif yn adran 2.

5.3 Mae rhai testunau yn debygol iawn o fod yn sensitif ac mae angen eu trin felly. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hyderus bod gennych ddealltwriaeth gadarn o'r testun drwy adolygu'r fanyleb, y Canllawiau Addysgu ac unrhyw adnoddau perthnasol yn fanwl, ac ystyriwch a fu unrhyw ddatblygiadau diweddar o fewn cymuned yr ysgol, yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang sy'n ymwneud â'r testun hwn a allai gael effaith ar eich addysgu ac ar ddysgwyr.

5.4 Bydd angen i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i ystyried a oes gan unrhyw destunau eraill y byddwch yn mynd i'r afael â nhw, neu a allai o bosibl godi o addysgu testunau eraill, y potensial i ennyn ymateb sensitif gan unrhyw un o'ch dysgwyr. Mae angen gwneud hyn yn ofalus, ac nid ar sail rhagdybiaethau, stereoteipiau neu ystyriaethau rhy syml.

5.5 Yn seiliedig ar y testun a'ch dysgwyr, ystyriwch a oes angen i chi wneud y canlynol:

- Strwythuro gwers mewn ffordd arbennig er mwyn cefnogi cydbwysedd a chyfranogiad
- Ystyried a oes angen unrhyw addysgu ymlaen llaw ac os felly, sut mae gwneud hynny.
- Paratoi dysgwyr ymlaen llaw ar gyfer unrhyw gynnwys a allai fod yn sensitif.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

- Er mwyn gwarchod rhag cyflwyno eich tuedd ddiarwybod yn eich addysgu, ystyriwch feysydd risg a'ch tybiaethau a'ch credoau eich hun.
- Os yw testun yn un sensitif i chi, efallai y bydd angen i chi ofyn am gefnogaeth yn eich ysgol.
- Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr optio allan a darparu dewisiadau eraill addas os yw'n briodol, a chyfeirio at gefnogaeth ar ôl y wers i'r rhai sydd heb optio allan.

5.6 Dewis unrhyw adnoddau ategol yn ofalus er mwyn lleihau unrhyw drallod posibl, a sicrhau eu bod yn gytbwys lle bo'n bosibl, yn ddibynadwy ac yn briodol i oedran.

## 6. Trin testunau sensitif

6.1 Eglurwch pam rydych chi'n trafod testun a allai fod yn sensitif; gallai hyn fod yn gyfle i esbonio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n cael eu datblygu a'r cysylltiad â gofynion y cymhwyster, ac i egluro bod y drafodaeth yn addysgol ac nid yn ideolegol.

6.2 Esboniwch eich rôl yn y wers, gan esbonio nad ydych chi'n trafod y testun i rannu eich barn eich hun, ond i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr.

6.3 Sefydlwch unrhyw reolau sylfaenol i'r drafodaeth ar ddechrau'r wers fel y gallwch sicrhau bod pob dysgwr yn gallu ymgysylltu â'r testun mewn ffordd ddiogel. Efallai yr hoffech greu rheolau sylfaenol ar y cyd â dysgwyr i feithrin amgylchedd diogel, parchus a chynhwysol. Gallai hyn gynnwys egluro beth yw ymddygiad ac iaith wahaniaethol.

6.4 Cefnogwch eich dysgwyr i ymdrin â materion cymhleth ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u galluoedd. Rheolwch anghytuno yn dawel gan ddangos deialog barchus.

6.5 Anogwch bob dysgwr i gynnig eu barn os dymunant, gan ymateb heb feirniadaeth na syndod. Dylech gynnal tôn niwtral.

6.6 Dylai addysgu hybu parch at ei gilydd a dealltwriaeth ar draws dysgwyr, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u profiadau ac unrhyw nodwedd warchodedig.

Cofiwch Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel yr amlinellir yn adran 4.

6.7 Mewn trafodaeth, dylech atal ymddygiad neu iaith wahaniaethol, herio rhagfarn a sicrhau nad yw addysgu yn atgyfnerthu stereoteipiau nac yn ymyleiddio grwpiau gwarchodedig. Er enghraifft, os yw dysgwr yn rhannu stereoteip niweidiol, dylech gydnabod cyfraniad y dysgwr, darparu gwybodaeth gywir, ac arwain y grŵp yn ôl at drafodaeth barchus gan sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr yn teimlo ei fod wedi'i dargedu.

6.8 Parchwch hawl eich dysgwyr i breifatrwydd, a pheidiwch â gwneud iddynt deimlo bod yn rhaid iddynt rannu gwybodaeth bersonol nad ydynt efallai eisiau ei rhannu.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

6.9 Efallai na fydd rhai dysgwyr eisiau lleisio eu meddyliau a'u teimladau ar lafar, yn enwedig o flaen grŵp mawr. Ystyriwch ddulliau o gefnogi prosesu emosiynol trwy arferion adfyfyriol fel ysgrifennu dyddlyfrau, ysgrifennu adfyfyriol neu drafodaethau grŵp llai, neu drwy gynnig fformatau trafod strwythuredig.

6.10 Ceisiwch gynnig amrywiaeth gytbwys o safbwyntiau priodol (gweler paragraff 6.9 isod) a sicrhewch nad yw dysgwyr yn cael eu hannog i fabwysiadu safbwynt penodol.

6.11 Nid yw sicrhau cydbwysedd yng nghyd-destun cyflwyno testunau sensitif yn golygu bod angen i chi roi amser cyfartal i bob barn. Nid yw hefyd yn golygu bod angen i chi addysgu am safbwyntiau peryglus a gwahaniaethol, damcaniaethau a chynllwynion di-sail.

6.12 Efallai y byddwch yn dod ar draws safbwyntiau gwrthgyferbyniol cryf gan ddysgwyr, gan gynnwys safbwyntiau y mae rhai yn eu gweld yn dderbyniol ond eraill yn eu profi fel rhai niweidiol. Dylech fod yn barod i herio hawliadau ffeithiol anghywir os oes angen yn unol â'ch cyfrifoldebau cyfreithiol fel yr amlinellir yn adran 4. Gallech gydnabod bod safbwyntiau gwahanol yn bodoli, ond na allwch ganiatáu i honiadau niweidiol neu ffeithiol anghywir gael eu helaethu. Lle mae dysgwyr yn mynegi barn a fyddai’n gallu achosi niwed, arhoswch yn dawel, heriwch y farn yn hytrach na'r unigolyn ac arweiniwch y drafodaeth yn ôl at ddeialog barchus. Mae'r dull hwn yn cefnogi trafodaeth agored wrth flaenoriaethu dyletswyddau diogelu a chydraddoldeb.

6.13 Wrth addysgu testun (*topic*) neu ddarn o destun (*text*) sy'n adlewyrchu safbwynt penodol, sicrhewch ei fod yn glir fod hyn yn cynrychioli safbwynt yr awdur neu'r ffynhonnell, nid yr athro. Atgyfnerthwch y ffaith bod dysgwyr yn rhydd i ddal gwahanol safbwyntiau ac anogwch nhw i fynegi safbwyntiau eraill mewn ffordd barchus.

6.14 Os ydych chi'n cyflwyno deunydd fel darn o destun sydd, er enghraifft, yn cynnwys iaith heriol neu iaith a allai atgyfnerthu stereoteip, dylech gydnabod hyn yn benodol, ei roi yn ei gyd-destun os yw'n briodol, gan ddarparu safbwyntiau eraill os yw'n briodol, hwyluso dadl gan ddangos trafodaeth barchus a sicrhau nad yw addysgu yn atgyfnerthu rhagfarn na gwahaniaethu, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

6.15 Mewn perthynas ag osgoi hybu safbwyntiau gwleidyddol partisanaidd, nid oes angen i chi osgoi defnyddio deunyddiau partisanaidd yn gyfan gwbl. Pan ddefnyddir deunyddiau o'r fath, dylid eu rhoi mewn cyd-destun a chyflwyno safbwyntiau eraill mewn ffordd gytbwys.

6.16 Blaenoriaethwch ddiogelwch a llesiant dysgwyr yn unol â'ch dyletswyddau diogelu. Dylech fod yn barod i oedi ac ailgyfeirio'r drafodaeth os yw'n mynd i gyfeiriad emosiynol neu anniogel. Dylech fonitro ymatebion myfyrwyr ac edrych allan am arwyddion o drallod (fel tawelwch, cynnwrf neu fod yn encilgar) neu effaith emosiynol andwyol; darparwch gyfleoedd iddynt gamu'n ôl neu gael mynediad at gefnogaeth os oes angen.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 7. Camau dilynol (ar ôl addysgu)

7.1 Os oes gennych unrhyw bryderon am ddysgwr, naill ai o safbwynt pryder y gallai fod yn ceisio dilyn safbwyntiau gwleidyddol partisanaidd neu os ydych chi'n teimlo y byddai dysgwr yn elwa o gefnogaeth bellach, uwchgyfeiriwch yn ôl eich cyfrifoldebau statudol yn unol â'ch dyletswydd Atal fel y nodir yn Rhan 1 Atodlen 6 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, adran 26, yn ogystal â chanllawiau dyletswydd Atal: Cymru a Lloegr (2023) a chanllawiau cadw dysgwyr yn ddiogel a pholisïau a gweithdrefnau eich ysgol.

7.2 Cyfeiriwch at adnoddau eraill a allai fod ar gael gan adran gefnogaeth fugeiliol neu ddiogelu'r ysgol.

7.3 Caniatewch gyfleoedd dilynol i ddysgwyr adfyfyrio neu ofyn cwestiynau yn breifat.

7.4 Os teimlwch ar unrhyw adeg y byddech chi'n elwa o gefnogaeth sy'n ymwneud â chyflwyno testun sensitif, gofynnwch am gefnogaeth gan gydweithwyr perthnasol yn eich ysgol sydd yno i'ch helpu.

## 8. Cysylltau at ddogfennau eraill

8.1 Mae'r dogfennau isod yn berthnasol yng nghyd-destun cyflwyno testunau sensitif i bobl ifanc 14 i 16 oed yng Nghymru:

- Cwricwlwm i Gymru - Hwb
- Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm - Hwb
- Themau trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm - Hwb
- Y Dyniaethau: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb
- Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb | LLYW.CYMRU
- Trosolwg - Addysgu addysg dinasyddiaeth a gwleidyddiaeth: canllawiau i ymarferwyr ar fod yn ddiduedd - Adnoddau - Hwb
- Cadw dysgwyr yn ddiogel | LLYW.CYMRU
- Arweiniad atodol: cydraddoldeb, hawliau dynol a Saesneg fel iaith ychwanegol - Estyn
- Gwrthsafiad a pharch: datblygu cydlyniant cymunedol | LLYW. CYMRAEG

© WJEC CBAC Ltd. 2026